Llywydd
Presiding Officer

***Rhaglen ymweliad y Senedd â Chanada***
***17-20 Chwefror***
***2020***

<u>Dirprwyaeth:</u>
**Y Llywydd, Elin Jones AS**
**Y Dirprwy Lywydd, Ann Jones AS**
**Comisiynydd y Senedd, Suzy Davies AS**



**Cynnwys:**


1. Cefndir a Diben tud.3

2. Rhaglen yr ymweliad tud. 4

3. Cydnabyddiaethau tud.17

4. "*Myfyrdodau o Ganada*" gan y Dirprwy Lywydd Ann Jones AS tud.18

Atodiad A – Crynodeb o'r Rhaglen tud.20

1. Cefndir a Diben

Bu ymgysylltu sylweddol rhwng y Senedd a Chanada, ar lefel ffederal a thaleithiol, dros y degawd diwethaf.

Mae’r prif ddigwyddiadau ymgysylltu yn ystod y cyfnod hwn wedi cynnwys:

- 2011 a 2014: Ymweliadau swyddogol â'r Senedd gan ddirprwyaethau ffederal o Senedd Canada.
- 2014: Ymweliad â'r Senedd, dan arweiniad Llefarydd Senedd Canada, yr Anrhydeddus Noel A. Kinsella.
- 2014 – Ymweliad swyddogol cyntaf dan arweiniad y Llywydd/Dirprwy Lywydd (y Fonesig Rosemary Butler) â Chanada; gyda rhaglenni Seneddol yn Ottawa a Chynulliad Deddfwriaethol New Brunswick.
- 2017: Ymweliad â'r Senedd gan Lefarydd Cynulliad New Brunswick, yr Anrhydeddus Chris Collins.

Mae ymweliadau o'r fath wedi dangos yn glir bod llawer o ddiddordeb cyffredin a sylweddol rhwng y Senedd a seneddau Canada, o ran dysgu gan ei gilydd, ac o ran cyfnewid arferion gorau seneddol,.

Mae'r ymweliad hwn â Chanada yn 2020 yn cynrychioli un o ddau ymweliad rhyngwladol y cytunwyd arnynt o dan arweiniad y Llywydd (y llall oedd yr ymweliad ag Affrica yn 2019).

Yn yr un modd â phob gweithgarwch rhyngwladol gan y Senedd, datblygwyd yr ymweliad hwn i ategu a chyflawni gwaith **Fframwaith ar gyfer Ymgysylltiad Rhyngwladol y Comisiwn** .

2. Rhaglen yr ymweliad

**Dydd Llun 17 Chwefror**

**Cyfarfod â Mr Andrew Wagstaff, Pennaeth Llywodraeth Cymru yng Nghanada.**

Dechreuodd rhaglen Ottawa gyda chyfarfod anffurfiol gydag Andrew Wagstaff, Pennaeth Swyddfa Llywodraeth Cymru yng Nghanada, a agorwyd yn 2017 ac sydd wedi'i lleoli ym Montreal, Quebec.

Rhoddodd Mr Wagstaff drosolwg i'r ddirprwyaeth o'r sefyllfa wleidyddol bresennol yng Nghanada o ran yr etholiad ffederal diweddar ym mis Hydref 2019, yn ogystal ag etholiad taleithiol Quebec ym mis Hydref 2018. Amlinellodd y gwaith y mae Swyddfa Llywodraeth Cymru yng Nghanada yn ei wneud o ran cysylltiadau rhwng un llywodraeth a'r llall sy'n ymgysylltu â llywodraethau ffederal a thaleithiol (Llywodraeth Quebec yn bennaf). Mae hyn, fodd bynnag, yn rhan gymharol fach o'u gwaith yn arbennig ar y lefel ffederal; yn hytrach, mae'r gwaith ymgysylltu ag Ottawa yn canolbwyntio ar feysydd polisi 'pŵer meddal', megis: newid hinsawdd (ymunodd Cymru â'r Gynghrair Pŵer ar ôl Glo yn 2018 dan arweiniad y DU a Chanada fel aelod annibynnol), dwyieithrwydd ac ieithoedd swyddogol.

Yr hyn a drafodwyd oedd strategaeth ryngwladol newydd Eluned Morgan AC, Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol Llywodraeth Cymru, a sut yr oedd hyn yn berthnasol i'w gwaith yng Nghanada.

Roedd Suzy Davies AC yn awyddus i ddysgu mwy am y modd yr oedd y tri sector blaenoriaeth a enwir yn y strategaeth – *seiberddiogelwch; lled-ddargludyddion cyfansawdd; a diwydiannau creadigol/ffilm a theledu o safon* – yn ategu'r cyfleoedd yn y farchnad yng Nghanada; gan nodi bod gallu ynni morol yn ei rhanbarth (Gorllewin De Cymru) yn gryf iawn.

Roedd gweledigaeth strategol gyffredinol Llywodraeth Cymru yn parhau i fod yn ystwyth yn eu marchnadoedd unigol ac felly byddai hefyd yn parhau i weithio mewn sectorau â synergedd cryf â Chymru. Yng Nghanada, *yr awyrofod ac ynni morol* oedd y rhain. Roedd cyfleoedd i Gymru yn y sector ynni morol, ac roedd Llywodraeth Cymru eisoes wedi bod yn gweithio gyda'r sector hwn, ar ôl bod yn rhan o ***gynhadledd Energy3*** yn Halifax, Nova Scotia yn 2019 mewn partneriaeth ag Ynni Môr Cymru; yn ogystal â gweithio mewn partneriaeth â chwmni o Ganada yng nghanolfan prawf Morlais ar Ynys Môn.

**Dydd Mawrth 18 Chwefror**

**Nodyn:** Roedd rhaglen ymweliad 2014 y Senedd i Ottawa yn cynnwys cyflwyniad ar raglenni adnewyddu uchelgeisiol Senedd Canada. Roedd y rhain wedi dechrau yn 2018 ac roedd y Senedd-dy a Thŷ'r Cyffredin gwreiddiol yn mynd drwy’r broses o gael eu hadnewyddu; prosiect mawr a oedd yn debygol o bara am o leiaf ddegawd.

Dechreuodd y rhaglen seneddol swyddogol gyda thaith o amgylch Uwch-dŷ Senedd Canada a oedd wedi’i lleoli dros dro o fewn cyffiniau atyniadol Canolfan Gynadledda’r Llywodraeth a oedd gynt, tan 1966, yn orsaf reilffordd ganolog Ottawa.



**Llun**: Dirprwyaeth o'r Senedd gyda thywysydd teithiau Senedd Canada

**Cyfarfod â Llefarydd Uwch-dŷ y Senedd, yr Anrhydeddus Mr [George J Furey C.F.]**



Noder: Roedd *Storm Dennis*, a oedd wedi achosi llifogydd a dinistr difrifol mewn rhannau o Gymru yr wythnos flaenorol, wedi cael sylw yn y newyddion yng Nghanada. Mynegodd Furey ei gydymdeimlad â hyn; gwerthfawrogwyd hyn gan y ddirprwyaeth o Gymru ac fe'i ategwyd gan lawer o bobl eraill yn ystod yr ymweliad.

Trafodwyd amrywiaeth eang o faterion yn ystod y cyfarfod, a mynegodd y Llefarydd Furey ei ddiddordeb mewn dysgu rhagor am:

- effaith Brexit ar Gymru a'r Cynulliad ac ar naratif y ddadl (pwnc yr oedd pawb yn cytuno ei fod yn gynhennus); a ddatblygodd yn wahanol yng Nghymru a oedd wedi pleidleisio i adael, mewn cyferbyniad â'r Alban a Gogledd Iwerddon.
- Datblygiadau cyfansoddiadol yng Nghymru ac yn ehangach o fewn y DU ac Iwerddon. Yn y cyd-destun hwn, trafododd y Llywydd y teithiau gwahanol iawn a wnaed gan y gwledydd a'r democratiaethau perthnasol yn y DU. Soniodd am hanes esblygiad democratiaeth Cymru a sut y mae'r Senedd bresennol, gyda phwerau deddfu sylfaenol (a enillwyd drwy'r **refferendwm yn 2011**) yn dra gwahanol i'r Cynulliad yr oedd hi a'r

Dirprwy Lywydd wedi ymuno ag ef adeg ei sefydlu yn 1999. Arweiniodd hyn at drafodaeth ynghylch

- y **Ddeddf Senedd ac Etholiadau** a gafodd Gydsyniad Brenhinol yn ddiweddar ac a fyddai, fel rhan o'i chylch gwaith, yn arwain at newid enw (i Senedd Cymru-Welsh Parliament) yn ogystal ag estyn yr etholfraint bleidleisio i bobl ifanc 16 oed yng Nghymru o etholiad y Senedd y flwyddyn nesaf.
- **Pwyllgor Busnes** y Senedd, a gadeirir gan y Llywydd; ac yn benodol, y broses o ran pennu amserlen fusnes y Senedd yn ogystal â'r modd y bydd ceisiadau am gwestiynau amserol a chwestiynau brys yn cael eu derbyn, neu eu gwrthod.

Daeth y cyfarfod i ben gyda thrafodaeth ynghylch y gwaith **adnewyddu presennol ar Senedd Canada**. Y disgwyl oedd y byddai'r prosiect mawr a llafurus hwn yn para oddeutu 15 mlynedd. Nododd y Llefarydd Furey ei fod yn falch dros ben gyda chartref dros dro newydd y Senedd; gan ychwanegu bod ei lleoliad, yng ngorsaf reilffordd ganolog gynt Ottawa yn ymddangos yn symbol priodol o leoliad i ddwyn pobl o Ganada ynghyd.

**Cyfarfod ag Anthony Rota AS, Llefarydd Tŷ'r Cyffredin**



Roedd cyfarfod i gyfarch yr Anrhydeddus Anthony Rota, a gafodd ei ethol (yn dilyn etholiad cyffredinol Rhagfyr 2019) fel 37fed Llefarydd Tŷ'r Cyffredin, yn cynnwys trafodaeth ynghylch:

- Traddodiadau cyferbyniol Senedd Canada fel deddfwrfa hirsefydlog o'i chymharu â deddfwrfa'r Senedd fel senedd llawer llai a modern.
- Materion amserol, gan gynnwys protest piblinell a rheilffordd Canada; trafodaethau ar faterion a oedd wedi dominyddu'r Sesiwn Holi Cwestiynau y prynhawn hwnnw, yn ogystal â'r newyddion teledu yn ystod ymweliad y ddirprwyaeth o Gymru ag Ottawa a Quebec.
- 25ain cynhadledd Llefarwyr a Llywyddion y Gymanwlad (CSPOC) a gynhaliwyd gan Ganada yn Ottawa ym mis Ionawr 2020.
- Y galwadau a'r heriau sy'n cystadlu o ran taro'r cydbwysedd rhwng rolau Llefarwyr Seneddol a gwaith etholaethol.
- Newid hinsawdd a sut y mae seneddau yn ymateb i'r Argyfwng Hinsawdd, y gwnaeth Cymru a Chanada ei ddatgan yn 2019.
- Ieithoedd swyddogol o fewn Senedd Canada ac a yw hyn wedi'i wleidyddoli. Dywedodd y Llefarydd Rota fod tua 30 y cant o'r trafodion yn Nhŷ'r Cyffredin yn Ffrangeg (ffigur yr oedd y Llywydd yn amcangyfrif ei fod yn debyg i'r hyn a geir o ran y defnydd o'r Gymraeg yn Senedd Cymru). Gwahaniaeth nodedig yn y ffordd yr oedd ieithoedd swyddogol yn cael eu trin yng Nghanada oedd bod *yr holl* drafodion, fel mater o egwyddor, yn cael eu cyfieithu'r ddwy ffordd; er bod y Llywydd wedi esbonio mai dim ond o'r Gymraeg i'r Saesneg y darperir cyfieithiadau yn y Senedd.
- Roedd y Llefarydd Rota, fel rhywun sy'n siarad pedair iaith, yn cydnabod yr heriau y mae dysgu ieithoedd newydd yn eu peri i rai, ond dywedodd fod pob ymdrech a darpariaeth yn cael eu gwneud i ganiatáu i'w Haelodau allu cyfathrebu'n ddwyieithog.
- Dysgodd y Llywydd a'r ddirprwyaeth hefyd am y gwahanol systemau seneddol a nodwyd, er enghraifft, nad oedd y Sesiynau Holi Cwestiynau yng Nghanada yn rhoi cyfle i'r Aelod sy'n gofyn y cwestiwn ddilyn hynny â chwestiwn atodol.

Cafodd y ddirprwyaeth o Gymru **ginio swyddogol** a gynhaliwyd yn garedig gan y Llefarydd Rota, gyda chynrychiolaeth drawsbleidiol o Aelodau Seneddol a ddaeth i ymuno. Croesawyd y Llywydd a'r ddirprwyaeth o Gymru gan y Llefarydd Rota, a nododd y cyfraniad sylweddol yr oedd y Cymry wedi'i wneud i fywyd yng Nghanada; gan ddweud bod rhyw 500,000 o ddinasyddion Canada yn gallu olrhain eu llinach yn ôl i Gymru. Gwnaeth y Llywydd yn ei thro ddiolch i'r Llefarydd Rota am y croeso cynnes a gafwyd ac am nodi'r sawl cysylltiad hanesyddol

arbennig rhwng Cymru a Chanada; gan gynnwys y ffaith mai'r enw gwreiddiol a roddwyd ar breswylfa swyddogol Prif Weinidog Canada oedd "Gorffwysfa". Wrth ychwanegu at hyn, dywedodd pa mor braf oedd cael dau gyfle blaenorol i groesawu dirprwyaethau seneddol ffederal i'r Senedd, gan obeithio y gallai'r gydberthynas gadarnhaol rhwng ein Haelodau a'n seneddau barhau a ffynnu.

Ymhlith y gwesteion a ddaeth i'r cinio, roedd yn braf cael y cyfle i gwrdd â Ms **Yasmin Ratansi AS**, Cadeirydd Cangen Senedd Canada o Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad (CPA); yn enwedig gan y byddai Canada yn cynnal Cynhadledd Seneddol y Gymanwlad 2021 yn Nova Scotia.

**Gwahoddiad i'r cyfarfod llawn yn Nhŷ'r Cyffredin**

Gwahoddwyd y ddirprwyaeth i eistedd yn oriel y Llefarydd ac i'r **Sesiwn Holi Cwestiynau** y prynhawn hwnnw (a oedd yn cynnwys cwestiynau i'r Prif Weinidog **Justin Trudeau AS**). Cafodd y Llywydd ei hanrhydeddu drwy gydnabyddiaeth swyddogol gan y Llefarydd Rota a'r Aelodau a oedd yn bresennol.

**Clip fideo Twitter o'r gydnabyddiaeth i'r Llywydd yn Senedd Canada**

**Sesiwn ar ieithoedd swyddogol**




**Llun**: Y ddirprwyaeth gyda'r Comisiynydd Iaith Mr Raymond Theberge a swyddogion.

Cyfarfu'r ddirprwyaeth â Mr **Raymond Theberge**, Comisiynydd Ieithoedd Swyddogol Canada (ynghyd â'i swyddogion). Mae MrThéberge yn aelod o **Gymdeithas Ryngwladol y Comisiynwyr Iaith**, y mae **Comisiynydd y Gymraeg**, (sef y cyn-Aelod Cynulliad Aled Roberts, ar hyn o bryd) yn aelod ohoni hefyd.

Rhoddodd Mr Théberge drosolwg i'r ddirprwyaeth o'i fandad fel Comisiynydd yn ogystal â'r tirlun ieithyddol cymhleth yng Nghanada; gan nodi er enghraifft gyfansoddiad ieithyddol gwahanol y taleithiau, nad oedd gan bob un ohonynt ddeddfau iaith unigol. Trafododd sut yr oedd y Ddeddf ieithoedd swyddogol (ffederal) bellach dros 50 oed a bod angen ei diweddaru er mwyn adlewyrchu'r Ganada fodern gan ganolbwyntio ar dechnoleg newydd a demograffeg a gofynion newydd.

Roedd y gwahaniaethau rhwng cylch gorchwyl y deddfau ieithoedd mewn perthynas â seneddau yng Nghanada a Chymru o ddiddordeb arbennig i'r ddirprwyaeth, yn ogystal â'r gofynion ieithyddol a chefnogaeth i Aelodau a swyddogion yn ein deddfwrfeydd perthnasol.

**Derbyniad gyda'r nos gydag aelodau o [Gymdeithas Cymru Ottawa]**



Cafwyd anerchiadau gan y Llywydd, y Dirprwy Lywydd Ann Jones AS a Suzy Davies AS yn ogystal â Geraint Lewis, Llywydd y Gymdeithas.

Roedd y noson yn gyfle i aelodau'r Gymdeithas ddysgu mwy am ddatblygiadau yn y Senedd ac yng Nghymru. Roedd gan y Llywydd a'r ddirprwyaeth ddiddordeb hefyd mewn dysgu mwy am waith a gweithgareddau Cymdeithas Cymru Ottawa, gan gynnwys Gŵyl Ffilm Gymreig llwyddiannus a gynhaliwyd yn y brifddinas yn 2019.

**Dydd Mercher 19 Chwefror**

**Sesiwn ar y Gyllideb, Archwilio a Sicrwydd Risg yn Uwch-dŷ Senedd Canada**

Cynhaliwyd sesiwn gydag uwch swyddogion Uwch-dŷ Senedd Canada ynghylch y Gyllideb, Archwilio a Sicrwydd Risg gyda Suzy Davies AC, y mae'r pwnc hwn o ddiddordeb arbennig iddi fel rhan o’i phortffolio fel Comisiynydd y Senedd.

Roedd yr hyn a drafodwyd yn cynnwys y gwahaniaethau rhyfeddol rhwng y systemau yng Nghymru a Chanada, gan gynnwys y trothwy ar gyfer cymeradwyo un trafodyn (sy'n sylweddol uwch yng Nghymru) yn ogystal â rôl **y Bwrdd Taliadau Annibynnol.**

Esboniwyd y risgiau a'r blaenoriaethau presennol yn Uwch-dŷ Senedd Canada, gan gynnwys cadw staff; ymosodiadau seiber yn ogystal â'r rhwydweithiau a rennir gyda Thŷ'r Cyffredin yng Nghanada. Trafodwyd hefyd gynlluniau Uwch-dŷ'r Senedd i sefydlu Pwyllgor Archwilio a Goruchwylio, unwaith y penderfynir ar ei union fandad.

**Dydd Iau 20 Chwefror**



**Llun:** Y Ddraig Goch yn hedfan uwchben Cynulliad Cenedlaethol Québec



**Llun**: Croesawyd y ddirprwyaeth i Gynulliad Cenedlaethol Quebec gan Lywydd (Llefarydd) Cynulliad Cenedlaethol Québec, **Mr François Paradis**

**Nodyn:** yn anffodus, nid oedd yn bosibl cynnal y cyfarfod swyddogol arfaethedig gyda'r Llywydd Paradis, oherwydd materion busnes brys yn y Cynulliad Cenedlaethol y diwrnod hwnnw yn ymwneud ag argyfwng y biblinell a’r rheilffordd.

**Sesiwn o’r cyfarfod llawn**.

Roedd y ddirprwyaeth yn falch o'r cyfle i fod yn bresennol yn y cyfarfod llawn y bore hwnnw, ac o gael ei chydnabod yn swyddogol gan y Llywydd Paradis ac Aelodau’r Cynulliad Cenedlaethol.

Roedd gan y ddirprwyaeth ddiddordeb arbennig mewn sesiwn lle bu'r Aelodau'n trafod yr angen i'r ddeddfwrfa draddodiadol yn Quebec foderneiddio a dod yn fwy hygyrch drwy fabwysiadu mentrau fel oriau eistedd cyfeillgar i deuluoedd a phleidleisio electronig i hwyluso hyn. Roedd y rhain eisoes wedi’u hen sefydlu a bellach yn cael eu cymryd yn ganiataol yn y Senedd.

> Fel rhan o'r cyfathrebu dilynol rhwng y Llywydd â Chynulliad Cenedlaethol Quebec, estynnwyd gwahoddiad i'r Llywydd Paradis ddod i ymweld â'r Senedd i ddysgu mwy am y polisïau a'r dechnoleg sydd ar waith yn Senedd Cymru a allai fod o ddiddordeb fel rhan o ddyheadau Quebec i foderneiddio.

**Sesiwn ar Archwilio a Rheoli Risg**

Roedd y cyflwyniad hwn gan uwch swyddogion yn gyfle i ddysgu mwy am y dulliau sydd ar waith yng Nghynulliad Cenedlaethol Quebec a'i flaenoriaethau, fel rhan o gynllun tair blynedd ar gyfer archwilio mewnol. Roedd uned bwrpasol wedi'i sefydlu ar gyfer y gwaith cynllunio strategol, a Phwyllgor Archwilio wedi'i sefydlu yn y Cynulliad.

Roedd y cyfarfod hefyd yn gyfle i Suzy Davies AC drafod arferion presennol yn y Senedd, yr oedd llawer ohonynt yn wahanol iawn i'r rheini yn Quebec. Mynegwyd diddordeb i ddysgu mwy am:

- rôl Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd fel Prif Swyddog Cyfrifyddu
- Rôl Suzy Davies fel aelod lleyg ar "Bwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Comisiwn y Cynulliad" (ACARAC); ac, yn fwy cyffredinol, rôl Aelodau etholedig wrth reoli risg
- Sut yr oedd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus (PCC) yn craffu ar Bwyllgor Cyllid y Senedd
- Rôl Archwilydd Cyffredinol Cymru

Nododd y Llywydd mai un o'r manteision o fod yn Senedd ifanc yw'r gallu i feithrin diwylliant o lywodraethu agored a thryloyw o'r cychwyn cyntaf.
**Cytunodd y seneddau i rannu rhagor o wybodaeth mewn perthynas â'r pwnc hwn yn dilyn yr ymweliad.**

**<u>Cinio gwaith gyda Chylch Menywod Cynulliad Quebec</u>**
Hwylusodd cyfarfod â chynrychiolwyr ***Cercle des Femmes Parlementaires*** (*Cylch o fenywod sy'n Aelodau o'r Cynulliad Cenedlaethol*) drafodaeth i ddysgu mwy am y Cercle; ei hanes a'i amcanion.
Trafodwyd cynrychiolaeth menywod yn y Senedd ac yn Quebec (mae gan y ddwy Senedd record gadarnhaol ar y cyfan a stori dda i'w hadrodd) gan ystyried rhai o'r rhwystredigaethau hanesyddol a rennir a'r heriau parhaus y mae menywod mewn sefydliadau democrataidd yn parhau i'w hwynebu.

Rhoddodd y Dirprwy Lywydd drosolwg o rywfaint o'r gwaith y bu'n arwain arno yn y Senedd i hyrwyddo menywod mewn democratiaeth, yn ogystal â chydraddoldeb yn fwy cyffredinol.

Mynegwyd diddordeb mewn disgrifiad y Llywydd am waith y Senedd wrth gyflwyno ei **<u>Pholisi Urddas a Pharch</u>** a **chytunodd y Senedd i anfon rhagor**

**o fanylion am y polisi at Gynulliad Quebec.**



**Llun**: Y ddirprwyaeth gyda chynrychiolwyr o Gylch Menywod Cynulliad Quebec.

## Sesiwn ar Strategaeth Ymgysylltu Cynulliad Cenedlaethol Québec

Dysgodd y ddirprwyaeth am waith y Cynulliad i ymgysylltu â phobl ifanc Quebec drwy ei dîm gwasanaethau addysg, sy'n cynnwys wyth swyddog.

Roedd gwaith y gwasanaeth yn canolbwyntio ar ysgolion y dalaith. Roedd rhaglen o weithgareddau addysgol i gefnogi estyn yr etholfraint ddemocrataidd yn cynnwys "gwersylloedd preswyl ieuenctid" wedi'u teilwra at grwpiau oedran penodol.

Roedd y Llywydd (Llefarydd) Paradis yn gefnogol iawn i'r gwaith o ymgysylltu â phobl ifanc Quebec, ac yn chwarae rhan amlwg yn hyn fel arweinydd y Cynulliad.

Soniodd y Llywydd am **Senedd Ieuenctid Cymru (SIC),** ei chefndir a'i blaenoriaethau gwaith presennol; gan nodi ei bod hi a holl Aelodau'r Senedd yn falch iawn ohoni. Nododd Suzy Davies AS bod **Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg** y Senedd, yr oedd yn aelod ohono, yn gwahodd Aelodau o Senedd Ieuenctid Cymru i roi tystiolaeth i'r Pwyllgor

Mynegwyd llawer o ddiddordeb yn hyn gan ddirprwyaeth Quebec ac, yn benodol, yn y sefydliadau partner a ddewiswyd gan Senedd Ieuenctid Cymru (yr oedd 20 Aelod wedi'u dewis o'u plith) **ac mae rhagor o fanylion am Senedd Ieuenctid Cymru â thîm ymgysylltu Cynulliad Quebec wedi'u rhannu ers hynny**.

**Taith o amgylch y "Pafiliwn Derbyn"**

Daeth y rhaglen i ben gyda thaith o amgylch y ganolfan ymwelwyr fodern a rhyngweithiol newydd hynod drawiadol yn y Cynulliad Cenedlaethol, a adwaenir fel y "Pafiliwn Derbyn". Roedd y ganolfan, a agorwyd ar 1 Mehefin 2019, yn brosiect mawr a oedd wedi cymryd pedair blynedd i'w adeiladu ar gost o $60.5 miliwn o ddoleri Canada (£34.25 miliwn). Roedd yr adeilad yn cynnwys dwy ystafell bwyllgora newydd, a oedd wedi'u henwi ar ôl yr Aelod Cynulliad Cenedlaethol benywaidd cyntaf, *Marie-Claire Kirkland*, a'r Prif Weinidog benywaidd cyntaf, *Pauline Marois*.

Roedd amryw o weithiau celf nodedig yn cael eu harddangos a ddewiswyd yn ofalus i goffáu hanes gwleidyddol a diwylliannol cyfunol Quebec.

3. Cydnabyddiaeth

Hoffai'r Senedd ddiolch i bawb a fu'n rhan o'r gwaith o hwyluso'r rhaglen ymweld hon yng Nghanada, ac yn benodol:

Andrew Wagstaff, Pennaeth Swyddfa Canada, Llywodraeth Cymru
Geraint Lewis, Llywydd, Cymdeithas Cymru Ottawa
Leslie Roach a Kevin Pitman, Senedd Canada
Marie-Christine Aubé a Mylène Poulin, Cynulliad Cenedlaethol Quebec.

4. **"*Myfyrdodau o Ganada*" gan y Dirprwy Lywydd Ann Jones AS**

Yr argraff gyffredinol a gawsom o'r ffordd yr oedd y seneddau y gwnaethom ymweld â hwy yn Ottawa a Quebec oedd sut yr oeddent, fel yn Nhŷ'r Cyffredin y DU, yn teimlo bod ganddynt wahaniaethau gwirioneddol a oedd yn gwneud eu trafodion yn unigryw i'w deddfwrfeydd.
Gan gydnabod mai'r Sesiynau Holi Cwestiynau yn aml yw cyfle gwleidyddion i greu argraff dda yn y cyfryngau (sy'n aml yn amharu ar ddadl dda), roedd dull gweithredu gwahanol o ran y ffordd y mae Aelodau yn defnyddio'r Cadeirydd/Llefarydd ac nid ydynt yn dilyn yr arfer o bwyntio bys at eu gwrthwynebwyr pan fyddant yn wynebu'r Llefarydd yn uniongyrchol wrth annerch y Senedd.
Roedd rôl y rheolwr busnes (yn sicr yn Ottawa) yn gwbl glir gan mai ef oedd yn cyfarwyddo'r trafodion ac yn dewis pa aelod o'r llywodraeth fyddai'n ateb y cwestiynau.

Cefais fy synnu gan y ffaith bod y cwestiynau ac ymatebion y llywodraeth iddynt wedi'u cyfyngu i *35 eiliad*, ac mae'r rheol honno'n cael ei gorfodi'n llym gan y Llefarydd. Rwyf dal yn ystyried fy nheimladau o ran y drefn bod Aelodau'n sefyll i gymeradwyo'r unigolyn sydd newydd siarad, a'r maint o ysgwyd llaw a oedd bron â bod yn digwydd bob 35 eiliad. Er ei fod yn cyfleu ymdeimlad o angerdd, roeddwn i'n teimlo ei fod yn tynnu sylw.

Roedd y sesiwn gyda'r Comisiynydd Iaith yn ddiddorol ac yn debyg i'r materion rydyn ni wedi'u hwynebu yn ein sefydliad ni o ran mynd i'r afael â dwyieithrwydd. Mae'n ymddangos hefyd bod yn rhaid iddynt fodloni disgwyliadau cymunedau/achwynwyr sy'n codi o ran eu rôl fel y'i diffinnir mewn deddfwriaeth.
Roedd yn braf cwrdd â Chymdeithas Cymru Ottawa, yr oedd sawl un ohonynt wedi teithio'n bell i ymuno â ni, yn ogystal â'r pleser o ddod o hyd i gyn-etholwr y mae ei deulu'n parhau i fyw yn fy ardal.
Roedd Senedd Quebec eto yn debyg i Dŷ'r Cyffredin y DU, hyd yn oed o ran gorymdaith y Llefarydd cyn i'r Senedd eistedd.
Unwaith eto, wrth wylio'r Sesiwn Holi Cwestiynau, roedd y trafodion ychydig yn wahanol ac yn llai dramatig eu natur nag Ottawa.
Roedd yn wych siarad â chynrychiolwyr benywaidd o'r cylch merched ac i ni rannu ein syniadau am y rhwystrau y mae menywod yn parhau i'w hwynebu mewn bywyd cyhoeddus.
Roedd y sesiwn gyda'r tîm ymwelwyr yn ddiddorol iawn ac roedd y ffordd yr oeddent yn datblygu eu Senedd Ieuenctid yn ddiddorol hyd yn oed ar gyfer sesiwn breswyl yn yr haf. Mae eu canolfan ymwelwyr newydd wedi manteisio

ar y cyfle i wneud defnydd da o dechnolegau newydd gyda byrddau arddangos rhyngweithiol.

Roedd pob un o'r sesiynau yn Ottawa ac yn Quebec yn ddefnyddiol iawn ac roedd y gwleidyddion a'u staff yn ddigon hael i roi o'u hamser, er ei fod yn gyfnod prysur iddynt o ran eu gwaith.

**ATODIAD A**

**CRYNODEB O'R RHAGLEN**

**Dydd Llun 17 Chwefror**

- Cyrraedd Ottawa
- Sesiwn friffio gydag Andrew Wagstaff,
  Pennaeth Swyddfa Canada Llywodraeth Cymru

**Dydd Mawrth 18 Chwefror**

- Taith o amgylch Senedd Canada
- Cyfarfod i gyfarch Llefarydd Uwch-dŷ’r Senedd, **George J Furey**
- Cyfarfod i gyfarch Llefarydd Tŷ'r Cyffredin, **Anthony Rota AS**
- Cinio swyddogol ar gyfer y ddirprwyaeth o Gymru a gynhaliwyd gan y Llefarydd Rota
- Gwahoddiad i Dŷ’r Cyffredin ar gyfer Sesiwn Holi Cwestiynau a chydnabyddiaeth swyddogol
- Sesiwn ar ieithoedd swyddogol
- Derbyniad gyda **Chymdeithas Cymru Ottawa**

**Dydd Mercher 19 Chwefror**

- Sesiwn i Suzy Davies yn Uwch-dŷ Senedd Canada ar *y Gyllideb, Archwilio a Sicrwydd Risg*
- Taith i Ddinas Quebec

**Dydd Iau 20 Chwefror**

- Croeso swyddogol i Gynulliad Cenedlaethol Quebec gan Lefarydd Cynulliad Cenedlaethol Quebec, **Mr François Paradis**
- Presenoldeb mewn cyfarfod llawn a chydnabyddiaeth swyddogol
- Sesiwn ar Archwilio a Sicrwydd Risg
- Cinio gwaith gyda'r **Chylch Menywod Cynulliad Quebec**
- Cyflwyniadau ar Strategaeth Ymgysylltu Senedd Québec
- Taith o amgylch Canolfan ymwelwyr newydd Cynulliad Canada

**Dydd Gwener 21 Chwefror**

- Gadael dinas Quebec  - teithio nôl i Gymru